



Cyngor Tref Aberteifi :-: Cardigan Town Council

Cofnodion yr is-bwyllgorau gynhaliwyd yn Ystafell Gynhadledd Antur Teifi
nos Fawrth, 15 Rhagfyr 2015 am 6.00yh.

Minutes of the sub-committees held at the Antur Teifi Conference Room
on Tuesday, 15 December 2015 at 6.00pm.

Presennol/Present—**Cynghorwyr/Councillors** John Adams-Lewis (**yn y gadair/in the chair**),
Dai Brabrook, Mark Cole, Clive Davies, Graham Evans, Gwynfi Jenkins, Neal Jones, Catrin Miles,
Jane Roche, Akira Shimazaki.

Ymddiheuriadau/Apologies—Y Cyng./Cllr Richard Jones

Cynllunio / Planning

Penderfyniad Cyngor Sir Ceredigion / Ceredigion County Council decision:

Rhif y Cais / Application No.	Cyfeiriad / Address	Y Bwriad / Proposal	Penderfyniad / Decision
A150076	Pentood Uchaf Caravan Site, Fishguard Road	Extension of existing campsite for siting of 3 log cabins, re-siting and creation of additional 10 pitches, associated works plus retrospective planning of camp site office.	<i>Mae'r cais wedi ei ganiatáu.</i> The application has been approved with conditions (14).

Hamdden / Recreation

Netpool

Ymateb Mr Paul Arnold:

Mr Paul Arnold's response:

"The County Council can proceed to remove the play area at Netpool at its own cost and the 'old' equipment, or which item(s) the Town Council require, can be transported to the rugby club for you. The County Council will "make good" the area once the equipment is removed. I've scheduled the removal for the end of February 2016. Before the County Council can remove any of the equipment it will need to carry out an Equality Impact Assessment. This Equality Impact Assessment requires some form of consultation with the uses of the play area and if the play area were to be repositioned by the Town Council then this would/could be used as part of the mitigation. Could you please let me know if the Town Council have any future plans for the use of the old equipment and if you do what is the time-scale."

Minute from 13 January 2015 sub-committee meeting.

"It was also agreed that the following items could be stored for future use either on the King George 5th Playing Field or the Skateboard Park: 1 swing bay 2 flat seats, 4 person rocker seat, spinning wheel/drum roll. The equipment is to be kept under the rugby stand store room. The two benches, the litter bin and the picnic table to remain on site."

Wedi ystyried yr uchod, awgrymwyd bod y cyfarpar i gyd yn cael ei storio hyd nes y penderfynir ar safle i'w osod.

Following discussion of the above, it was recommended that the equipment be stored until location is identified.

Gohebiaeth / Correspondence

- (1) **Age Cymru Ceredigion: Gwahoddiad i ddigwyddiad cymdeithasol yn y swyddfa, 22 Rhagfyr, 10.00-12.00.**
Invitation to a social event at the office on 22 December, 10.00-12.00 noon.
- (2) **Cyfarchion Nadolig oddi wrth Faer Laufen.**
Christmas greetings from the Mayor of Laufen.

- (3) **Cymdeithas Ddinesig Aberteifi (Hanes Aberteifi): Y Cyng. Clive Davies**
Cardigan Civic Society (Hanes Aberteifi): Cllr Clive Davies.
Awgrymwyd bod y Cynghorwyr Jane Roche a Mark Cole yn mynychu'r cyfarfod sydd i'w gynnal i sefydlu Ymddiriedolaeth Hanes Dinesig yn y dref ar 10 Chwefror 2016 yng Ngorffwysfa'r Pysgotwr.
It was recommended that Councillors Jane Roche and Mark Cole attend the meeting of all relevant groups to establish the Civic Trust in Cardigan on 10 February 2016 at the Fisherman's Rest.
- (4) **History Points: Diweddariad.** History Points: Update.
Wedi ystyried pwyntiau dilys y Tad Seamus Cunnane ynglŷn â ffeithiau hanesyddol o daith Harri Tudur drwy'r dref, awgrymwyd bod y cwmni sy'n gyfrifol am y placiau, "History Points", yn newid y ffeithiau ar y wefan.
After discussing the relevant points raised by Father Seamus Cunnane regarding the historical facts of Henry Tudor's journey through Cardigan, it was recommended that "History Points" alters the rhetoric on the website.
- (5) **Bwrdd Dehongli ar gei'r Tywysog Siarl: Y Cyng. Catrin Miles.**
Interpretation board on Prince Charles quay: Cllr Catrin Miles.
Awgrymwyd bod y bwrdd dehongli, sydd yn nodi ffeithiau esboniadol am fywyd pysgod y bae, yn cael ei osod ym maes parcio Stryd y Cei yn ymyl y llithrfa a ddefnyddir gan bysgotwyr lleol. Cytunodd y Cyng. Clive Davies gysylltu â Ms Alison Kinsey, Swyddog Cymunedau Gwledig (Cynnal y Cardi) y cyngor sir, i awgrymu hyn.
It was recommended that the interpretation board, depicting illustrative facts of local fish life, be placed in the Quay Street car park near the slipway used by local fishermen. Cllr Clive Davies agreed to contact Ms Alison Kinsey, Rural Communities Officer (Cynnal y Cardi) of the county council.
- (6) **Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2020: Adroddiad i'r Cabinet, 15 Rhagfyr – Diweddariad.**
National Eisteddfod of Wales 2020: Report to the Cabinet, 15 December – Update.
Awgrymwyd bod y clerc yn ysgrifennu llythyr at holl gynghorau cymuned a thref Ceredigion sydd i'r de o Synod a hefyd at gynghorau bro gogledd Sir Benfro a gorllewin Sir Gâr gan ofyn am eu cefnogaeth drwy osod y ffeithiau ymarferol a chadarnhaol sydd ar gael i gynnal yr Eisteddfod yn ardal Aberteifi yn 2020. Awgrymwyd hefyd y dylid cynnal cyfarfod cyhoeddus yn ystod Chwefror/Mawrth.
It was recommended that the clerk forwards a letter to all Ceredigion community and town councils located to the south of Synod Inn, and also north Pembrokeshire and west Carmarthenshire community councils, seeking their support and stating the practical and positive reasons for the Eisteddfod to be invited to the Cardigan area in 2020. It was also recommended that a public meeting to lobby support be held during February/March.
- (7) **Gardd Brioude: (a) Ceblau trydanol; (b) Blodau'r ardd; (c) Man aros i bobl tan anfantais tu allan i'r Castell.**
Brioude Garden: (a) Electrical cables; (b) Garden flowers; (c) Drop-off point for disabled visitors to the Castle.
Awgrymwyd y canlynol: (a) bod y Cynghorwyr John Adams-Lewis a Catrin Miles yn cysylltu â swyddogion y cyngor sir i archwilio'r ceblau; (b) cyfrifoldeb Pwyllgor Gefeillio Aberteifi/Brioude ydyw; (c) bod cais am gyfarfod safle yn cael ei wneud gyda'r adran briffyrdd.
The following recommendations were agreed: (a) that Cllrs John Adams-Lewis and Catrin Miles contact officers from the county council to test the cables; (b) the flowers remain the responsibility of the Cardigan/Brioude Twinning Committee; (c) an application for a site meeting with the county council highways department be made.
- (8) **Grŵp newydd sydd yn cael ei sefydlu yn Aberteifi i'r rheini sydd dros 50+ ac yn fyddar neu sy'n cael trafferth clywed. Cyfarfod nesaf 13 Ionawr, 2.00-4.00yp yn Neuadd Eglwys y Santes Fair.**
New group to be located in Cardigan for the 50+ who are deaf or are experiencing hearing loss. Next meeting on 13 January , 2.00-4.00pm at St Mary's Church Hall.
Awgrymwyd bod y Cynghorwyr John Adams-Lewis a Graham Evans yn mynychu'r cyfarfod.
It was recommended that Councillors John Adams-Lewis and Graham Evans attend the meeting.

- (9) **Yr Arolygydd Christina Fraser: Yn cadarnhau ei hymweliad â chyfarfod misol y cyngor.**
Inspector Christina Fraser: Confirmation of her visit to council monthly meeting.
Awgrymwyd bod y cyngor yn gwahodd yr Arolygydd i gyfarfod y cyngor ym mis Ionawr neu Chwefror.
It was recommended to invite the Inspector to either the January or February council meeting.

Unrhyw fater arall / Any other business

- (1) **Ffrâm lluniau'r Meiri yn siambr y cyngor yn Neuadd y Dref. Prisiau: tua £25.00 yr un.**
Frames for Mayoral portraits for the Guildhall council chamber. Estimate: £25.00 per frame.
Awgrymwyd bod y clerc yn archebu chwe ffrâm.
It was recommended that the clerk places an order for six frames.
- (2) **Man i gynnal cyfarfodydd Ionawr / Venue for January council meetings.**
Awgrymwyd bod y cyngor yn derbyn cynnig cwmni 4CG i gynnal cyfarfodydd mis Ionawr yn hen swyddfa'r heddlu yn Stryd y Prior yn ôl £20 y cyfarfod.
It was recommended that the council accepts the offer of 4CG to hold the January council meetings in the old police station office in Priory Street, at a cost of £20 per meeting.
- (3) **Banc Boteli Parc y Ffair / Fairfield Bottle Bank.**
Gan fod trigolion Teras Wiliam wedi cwyno am y sŵn a ddaw o'r banc boteli a leolwyd ger y fynedfa i'r maes parcio, mae swyddogion y cyngor sir yn ystyried ailosod y banc ar ben draw'r maes. Fe archwilir y safle gan ystyried y ceblau trydan uwchben sydd yn medru amharu ar yr offer i wacáu'r banc.
As residents of Williams Terrace have complained of the noise generated by users of the bottle bank previously located at the entrance to the car park, county council officers are considering placing the bank on the far end of the car park. The location will be surveyed for overhead cables before decision is finalised.
- (4) **Cyfarfod PACT Meeting.**
Mae graffiti yn dal i fod yn broblem i'r heddlu yn y dref.
Graffiti still persists as a problem for the police patrolling the town.
- (5) **Toiledau Cyhoeddus Bath House Public Conveniences.**
Mae Mr Huw Morgan, Cyfarwyddwr Strategol y cyngor sir, yn awgrymu y dylid cau'r toiledau sydd gerllaw Theatr Mwldan. Roedd y penderfyniad yma yn rhan o strategaeth wreiddiol cyngor y dref pan drafodwyd y mater o gau toiledau cyhoeddus y dref.
Awgrymwyd bod y cyngor yn cadarnhau'r penderfyniad ar y sail bod y cyngor sir yn ailedrych ar doiledau eraill y dref.
Mr Huw Morgan, the county council Strategic Director, recommended the closure of the Bath House toilets near Theatr Mwldan. This decision was part of the town council's strategy when the closure of Cardigan's toilets was previously discussed. It was recommended that the council confirms this decision on the basis that the county council reconsiders the closure of other toilets in the town.
- (6) **Cyfarfod Cyfoeth Naturiol Cymru yng Nghaerdydd.**
Natural Resources Wales meeting in Cardiff.
Cafwyd adroddiad gan y Cyng. Jane Roche ar y cyfarfod gynhaliwyd yng Nghaerdydd ar 3 Rhagfyr i drafod cynlluniau arbed llifogydd yng Nghymru. Yn bresennol roedd pobl a effeithwyd gan lifogydd a phartneriaid proffesiynol gyda chyfrifoldeb i reoli'r perygl o lifogydd drwy'r wlad. Cytunodd y Cyng. Roche anfon rhagor o fanylion a'r newyddlen ddiweddaraf ymlaen i'r cynghorwyr.
Cllr Jane Roche reported on the meeting held in Cardiff on 3 December discussing flood alleviation schemes throughout Wales. The agenda included bringing together members of the public affected by flooding with professional partners with responsibility for, or interest in, managing flood risk within Wales. Cllr Roche agreed to forward detailed information and the latest newsletter to all members in due course.

Er gwybodaeth / For information

22 Rhagfyr, 12.00: Gwasanaeth Coffa Mrs Maureen John yn Eglwys y Mwnt

22 December at 12.00 noon: Memorial Service for Mrs Maureen John at Mwnt Church.

12 Ionawr 2016: Cyfarfod Gosod y Gyllideb am 2016-17, 6.00yh

12 January 2016: Meeting to set the budget for 2016-17, 6.00pm.